Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Uned Famolaeth, Ysbyty Athrofaol y Faenor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
## Dyddiad yr arolygiad: 6 - 8 Mehefin 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83504-624-1
© Hawlfraint y Goron 2023

Rhoddodd menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth adborth cadarnhaol am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt a'u teuluoedd yn Uned Famolaeth Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer bach o broblemau mewn perthynas â'r broses o wirio cyfarpar yn ddyddiol a hylendid mewn rhai ardaloedd.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff ar bob lefel yn gweithio'n dda fel tîm i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion a oedd wedi'i deilwra atynt ac yn canolbwyntio ar eu hanghenion. Gwelsom y staff yn darparu gofal a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn er bod peth pwysau staffio yn yr adran.

Roedd strwythur rheoli addas ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Ar y cyfan, roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol mewn perthynas â'r tîm rheoli, gwaith tîm a'r camau a gymerir gan y sefydliad o ran iechyd a llesiant. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn dangos bod angen gwneud gwelliannau o ran y lefelau staffio ar yr uned. Hefyd, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau o ran cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.
Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan rhwng 6 a 8 Mehefin 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Y Ward Gynenedigol – 8 gwely
- Y Ward Esgor – 17 o welyau (gan gynnwys 5 gwely Dibyniaeth Uchel)
- Y Ward Ôl-enedigol – 16 o welyau
- Yr Uned Gyfochrog dan Arweiniad Bydwragedd (Canolfan Eni) – 6 gwely
- Y Ward Ysgogi'r Cyfnod Esgor – 8 gwely
- Y Ward Ôl-lawdriniaethol – 8 gwely

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC, un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, Pennaeth Ansawdd a Chyngor Clinigol Acíwt AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (dwy fydwraig ac un obstetregydd) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelwyd y staff yn darparu gofal parchus a charedig i'r menywod a'u teuluoedd. Gwelsom fod pob aelod o'r staff ar bob lefel yn gweithio'n dda fel tîm i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion a oedd wedi'i deilwra atynt ac yn canolbwyntio ar eu hanghenion. Roedd bron pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi canmol y gofal a ddarparwyd iddynt, y staff ac amgylchedd yr uned famolaeth. Gwelsom y staff yn darparu gofal a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn er bod peth pwysau staffio yn yr adran.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Adolygu ac ystyried cynyddu nifer y pyllau geni sydd ar gael yn yr uned
- Adolygu'r trefniadau ymweld a chyfleu'r amseroedd yn effeithiol i'r teuluoedd cyn iddynt gael eu derbyn i'r uned
- Adolygu ac ystyried cynyddu nifer y gwelyau ôl-enedigol er mwyn gwella llif cleifion.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ystyried anghenion unigol
- Ystafelloedd en-suite unigol, golau a mawr a chyfleusterau modern
- Roedd gwybodaeth am feichiogrwydd ar gael mewn sawl iaith ar wefan Iachach Gyda'n Gilydd
- Roedd cynrychiolaeth gan gleifion drwy'r grŵp *Bump and Birth Improvement* (BABI) yn cael ei defnyddio i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

*"Roedd y gofal a'r cymorth a gefais gan bob aelod o'r staff yn arbennig, ac roedd fy mhrofiad geni yn un cadarnhaol diolch i hyn."*

*"Yn ystod fy nghyfnod esgor, roedd y gofal a gefais yn ddi-fai, ond nid oedd yr ôl-ofal a gefais cystal.*

*"Roedd pob agwedd ar y gofal yn cael ei darparu mewn ffordd onest, agored ac anfeirniadol a oedd wedi'i theilwra at yr unigolyn."*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelwyd rhai elfennau o arfer da. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer bach o broblemau mewn perthynas â'r broses o wirio cyfarpar ac atal a rheoli heintiau lle y mae AGIC yn galw am sicrwydd ar unwaith gan y BIP ynghylch y camau gweithredu a gymerir i fynd i'r afael â'r rhain.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwelsom fod rhai o'r dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau mewn dwy ystafell ar gyfer rhoi gofal a thriniaeth yn amlwg yn fudr gyda gwaed a hylifau'r corff
- Nid oedd y gwiriadau dyddiol o un o'r dadebrwyr hanfodol bob amser yn cael eu cofnodi
- Nid oedd llofnod ar gael bob amser i ddangos bod y gwiriadau dyddiol o dymheredd un o'r oergelloedd meddyginiaeth wedi cael eu cynnal
- Trefniadau annigonol ar gyfer rheoli a diogelu rhai darnau o wybodaeth gyfrinachol am gleifion.

Yn ogystal â'r achosion uchod lle mae angen sicrwydd ar unwaith, rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff pob drws tân sy'n arwain at gypyrddau glanhau eu cau
- Adolygu'r broses o gynllunio olyniaeth a chapasiti ar gyfer pob un o rolau'r bydwragedd arbenigol
- Sicrhau bod cyfarpar meddygol hanfodol ar gael yn hawdd i'r staff
- Cynnal archwiliadau rheolaidd o ddogfennau a dysgu gwersi dilynol mewn perthynas â chofnodion y cleifion

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Mentrau arloesol i nodi risgiau
- Llwybrau gofal clir ac effeithiol ar gyfer menywod a babanod

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd y rheolwyr i'w gweld ym mhob ardal o'r uned ac roedd sylwadau gan y staff yn nodi eu bod yn hawdd mynd atynt a'u bod yn barod i dderbyn adborth. Dywedodd pob aelod o'r staff fod diwylliant cefnogol a chadarnhaol ar waith. Gwelsom dimau cyfeillgar, caredig, hawdd mynd atynt a oedd yn gweithredu'n dda ac yn cydweithio'n dda ym mhob rhan o'r adran. Gwelwyd rhai heriau mewn perthynas â recriwtio a chadw staff. Gwnaethom nodi hefyd fod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn wael mewn rhai meysydd.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd lefelau cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant gorfodol mewn rhai meysydd, yn cynnwys sgiliau clinigol allweddol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel
- Gwella mynediad y staff at ardaloedd lle y gallant gael seibiant o'r ardal glinigol
- Gwella'r system ar gyfer olrhain hyfforddiant y staff.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Cyfleu sylwadau'r cleifion i'r staff yn rheolaidd
- Cynnwys y staff yn y gwersi i'w dysgu a'r arferion da a nodir wrth ymchwilio i ddigwyddiadau
- Mae cyfleoedd datblygu ar gael i bob aelod o'r staff ar bob lefel.

**Dywedodd y staff wrthym:**

Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

Nodwch ddyfyniadau sy'n cefnogi'r hyn a wnaeth y gwasanaeth yn dda neu'r meysydd sydd angen eu gwella

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

